PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 29 Gorffennaf 20, 2023 50c.

## AWN I FETHLEM BAWB DAN GANU

*Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn dathlu 150 mlwydd oed yr adeilad presennol*




Trwy gydol mis Mehefin eleni, bu aelodau Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn dathlu 150 mlwydd oed yr adeilad presennol. Er mai 1872 sydd ar y garreg sydd ar dalcen blaen y capel, mae'r cofnod canlynol o *Y Tyst a'r Dydd* (rhifyn 13 Mehefin 1873), sy'n adrodd hanes agor y capel 'newydd', yn nes ati siŵr o fod:

> Mae y Bethlehem hwn wedi ei adeiladu mewn man hyfryd iawn – llawer gwell yma na'r un y safai yr hen gapel arno. Llwch, baw, a sŵn peiriannau oedd oddiamgylch yr hen gapel, ond coed prydferth, a sŵn adar y nefoedd yn canu oddirhwng eu cangau sydd yn amgylchynu y newydd. Capel trymaidd ac anghyfleus oedd yr hen, ond capel ysgafn a gwir gyfleus yw y newydd.
>
> Adeiladwyd yr hen gapel fwy na deugain mlynedd yn ôl, a chafodd ei helaethu ddwy waith.
>
> Cymerodd yr agoriad le dydd Sabboth a Llun y 1af a'r 2il cyfisol.
>
> Yr oedd y cynulliad yn anarferol o fawrion trwy y dydd, a'r awel ddwyfol yn esmwyth chwythu trwy bob peth, nes ei gwneud yn hyfryd iawn i fod yn bresennol.




### Yr hen gapel

Mae'r hen gapel gwreiddiol yn dal i sefyll, ar safle tu ôl i ysgol gynradd y pentref, ond ei fod ers amser maith wedi ei droi yn dŷ annedd – mae cofnod am yr agoriad yn rhifyn mis Ebrill 1832 o gylchgrawn *Yr Efangylydd*:

> Ar y trydydd a'r pedwerydd o Fawrth 1832 agorwyd addoldy newydd perthynol i'r Annibynwyr a elwir Bethlehem wrth 'Forge' Pentyrch ... y mae'r Bethlehem hwn yn gangen o'r Taihirion ac i fod dan ofal gweinidogaethol D(avid) Jones. Mae'r Deml hon yn adeilad hardd a chyfleus i addoli, a chan ei bod wedi ei hadeiladu mewn ardal lluosog ei thrigolion, gobeithio y caiff llaweroedd les tragwyddol yn y Deml newydd.

### Gweinidogion

Bu Bethlehem yn hynod ffodus o'i gweinidogion, weithiau ar y cyd a chapeli eraill yn y cylch, un ai yn llawn amser neu'n rhan amser, a hynny ers cyfnod David Jones (1829–33).

Yma y bu y canlynol yn gwasanaethu: y Parchedigion John Lewis (1834–37); David Davies (1837–38); Lemuel Smith (1840–42); John Jones (1842/44?–72); Morgan Charles Morris (1874–80); Owen Lloyd Roberts (1883–86); Tomos Jenkyn Rees (1891–95); Robert Griffith Berry (1897–1945); Gwilym Morris (1947–68); Ifor Rees (llanw yn y cyfnod 1968–74); Rhys Tudur (1974–84); Thomas James (TJ) Davies (1985–2000); Gareth Evans

*parhad ar dudalen 6*



Llongyfarchiadau mawr iawn i Elinor Wyn Reynolds, eglwys y Priordy, Caerfyrddin – ac un o dîm golygyddol *Y Tyst* – ar ennill y wobr farddoniaeth Llyfr y Flwyddyn 2023 am ei chyfrol o gerddi *Anwyddoldeb*. Hefyd llongyfarchiadau i Huw a Luned Aaron, eglwys Ebeneser, Caerdydd, ar ennill gwobr plant a phobl ifanc am eu llyfr *Dwi Eisiau bod yn Ddeinosor*.

# Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol: Rhosllannerchrugog 2023

*Dyma ail ran Adroddiad y Parchg Dyfrig Rees yng nghyfarfodydd yr Undeb.*



## Rhaglenni

Clywsoch eisoes am rai o'r rhaglenni sy'n weithredol ac sy'n dal i dyfu a datblygu.

## Eglwysi Dementia-gyfeillgar

Llynedd soniais am yr adnodd gwerthfawr oedd ar fin dod i'n meddiant yn ffeil yr Eglwysi Dementia-gyfeillgar, *Heulwen Dan Gymylau*. Erbyn hyn, cafwyd cryn dipyn mwy na hynny, trwy nawdd o gynllun y Genhadaeth Ddigidol cynhyrchwyd fersiwn digidol ohono yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gwn bod Emlyn, Rhodri-Gwynn, Siân a Gwilym wedi cael gwahoddiadau lu i ymweld â chyfundebau i gyflwyno'r mater. Dyma batrwm o weithgaredd, nid yn unig o ran cynnwys ond o ran trefniant inni ei fabwysiadu. Cyfundeb yn troi cyflwyniad cynhadledd yn benderfyniad i'r Undeb a hwnnw'n cael ei dderbyn a'i gyflwyno i'r Cyngor ac yn dod yn weithredol.

## Economi Bywyd a Newid Hinsawdd

Bu Dr Fiona Gannon yn ddiwyd ei gwaith yn addasu *Abundant Life* y Congregational Federation i'n pwrpas ni a daeth hwnnw, bellach, yn adnodd digidol, *Bywyd yn ei Gyflawnder*. Gwaith a noddwyd gan CWM. Clywsom gan Fiona fod y gwaith yn mynd rhagddo ac yn tyfu.

## Y Cwmni Bach

Erbyn hyn y mae Elinor a Rhodri wedi llwyddo i osod rhyw 9-10 podlediad ar y wefan ac mae'n siwr y byddwch yn cytuno bod ansawdd y gwaith o safon uchel iawn. Eu bwriad yw cynhyrchu a chyflwyno un y mis am ddwy flynedd ac rwy'n siwr y bydda nhw'n barod i dderbyn gennych awgrymiadau o enwau pobl i'w cyfweld. Mae'n adnodd gwerthfawr. Yn lle da i gychwyn sgwrs, trafodaeth, dadl. Gall fod yn sail myfyrdod mewn oedfa. Y mae'r cwmni bach yn gwmni da iawn ac rwy'n eich annog i'w gwylio.

## Eglwys y mis

Diolch i'r eglwysi sydd wedi rhannu rhywfaint o'u storïau â ni. Byw ar storïau ein gilydd fyddwn ni ac mae'n bwysig bod cynifer a phosibl o'n heglwysi'n gosod eu hunain i sefyll yn y ffenestr hon ar ein gwefan.

## Cerddoriaeth

Bydd cymal nesaf y Genhadaeth Ddigidol (MSP4) yn ymwneud â cherddoriaeth. Teg nodi nad yw'r drafodaeth wedi cyrraedd ei babandod eto ond i ni'n ddigon hyderus bod yn ein plith bobl abl a dawnus i arwain y drafodaeth ac i ddatblygu rhaglen all ddod yn adnodd defnyddiol i'n heglwysi.

## *Y Tyst*

Hoffwn ddiolch i olygyddion *Y Tyst*, o dan arweiniad Dr Alun Tudur am eu hymroddiad hwythau i'r gwaith. Y mae'r ffaith iddynt baratoi rhifyn yr wythnos dros y flwyddyn yn ddigon o ryfeddod. Da nodi yn y cyswllt hwn y bartneriaeth ragorol sydd rhyngom â staff gwasg Serol.

## Rhaglen Arloesi a Buddsoddi

Y mae'r rhaglen yn dod at ddiwedd ei hail dymor ac y mae wyth o eglwysi, hyd yma, wedi derbyn nawdd. Gwelwyd yr angen i ddiwygio rhywfaint ar y rhaglen a phenderfynwyd mai ceisiadau am nawdd i gynnal prosiect am dymor, o hyd at dair blynedd, fydd yn cael eu hystyried, bellach.

Nawdd i eglwysi gynnal gweinidog : y mae cylch cyntaf y ceisiadau wedi eu hystyried, bellach, ac fe rennir y wybodaeth â'r eglwysi cyn gynted â phosibl, wedi'r wythnos hon.

Mae'n dda gweld gweithgaredd Y Gymdeithas Hanes a'r Rhwydwaith Heddwch y diwrnodau hyn a diolch i'w swyddogion am eu gwaith ac i Rhodri Darcy am ei gydlynu. Gwn ei bod yn fwriad gan Rhodri i gasglu cynrychiolwyr y cyfundebau o'r Rhwydwaith Merched ynghyd yn yr hydref gyda'r gobaith o hyrwyddo a datblygu gweithgaredd newydd yn eu plith.






## 'Cristnogaeth a Fi'

**Anerchiad gan**
**Ifan Gruffydd (Tregaron)**
**ar nos Lun, Gorffennaf 31ain.**

**Capel y Tabernacl,**
**Hendy-gwyn am 7.00 yr hwyr**

Pris mynediad - £3
yn cynwys paned o de

Croeso mawr i bawb.

(Trefnir fel rhan o
Wythnos Hendy-gwyn 2023)

## Eglwys Nebo, Felindre, Abertawe

Cynhelir oedfa sefydlu
Y Parchg Rhys Locke
fel bugail ar yr eglwys

**Sadwrn 29 Gorffennaf 4.00 y.p.**

Bydd lluniaeth ar ôl yr oedfa
yn y neuadd.

Croeso cynnes i bawb i ymuno gyda ni

Yr Adran Gydenwadol

GORFFENNAF 20 2023 RHIF 125

# Agor y Llyfr ar ei newydd wedd

Bellach, mae'r cynllun poblogaidd hwn wedi ei ail-lansio gydag adnoddau newydd sbon. Y nod yw rhannu straeon Beiblaidd â phlant ym mhobman, drwy rym adrodd storïau. Mae Agor y Llyfr yn credu bod gan stori Feiblaidd wedi'i hadrodd yn dda y pŵer i danio'r dychymyg, ysbrydoli awydd i archwilio, rhoi gobaith, creu gwên, dysgu gwersi pwysig a chysylltu cenedlaethau.

Daeth cynulliad o gefnogwyr Agor y Llyfr ynghyd i Eglwys Gymunedol Baglan ddechrau mis Gorffennaf er mwyn bod yn rhan o fenter i lansio Agor y Llyfr ar ei newydd wedd. Ers dros 15 mlynedd bu'r cynllun hwn yn weithredol ar hyd a lled ysgolion dros Gymru gyfan. Roedd yr adnoddau a ddefnyddid wedi eu paratoi dros 25 mlynedd yn ôl yn wreiddiol, a theimlid erbyn hyn fod angen adnoddau ffres a chyfoes. Yn dilyn dwy flynedd o ysgrifennu, arbrofi a golygu, mae'r adnoddau hyn bellach wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

Pleser pur oedd croesawu'r awdur Bob Hartman i Faglan, a chyda'i afiaith a'i ddawn i rannu stori, fe gyflwynodd rai o'r golygfeydd yn y cyfrolau newydd. Cafwyd cyflwyniad gan Kerry Evans o Agor y Llyfr yn Swindon, a chyflwyniad dramatig hefyd gan y storïwr o Rydaman, Dai Woolridge.

Fel rhan o'r digwyddiad cyflwynwyd y cyfrolau newydd, a bellach mae'r rhain ar gael drwy Gymdeithas y Beibl i'r holl grwpiau sydd wedi cofrestru gyda nhw.

### Beth yw Agor y Llyfr?

Mae Agor y Llyfr yn brosiect cyffrous lle rhennir straeon Beiblaidd â phlant mewn ffordd sy'n hwyl, yn rhyngweithiol a chofiadwy. Fel gwesteion a wahoddir i ysgol, mae timau o storïwyr yn defnyddio rhaglen Agor y Llyfr i baratoi a chyflwyno stori Feiblaidd sy'n para am 10–15 munud ac wedi ei sgriptio ar gyfer gwasanaeth ysgol, gan gynnwys y plant gymaint ag y bo modd.

Gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi a'u recriwtio'n ddiogel gan eglwysi a sefydliadau lleol yw'r timau o storïwyr. Maen nhw'n ymrwymo i ddilyn Cod Ymarfer Agor y Llyfr, ac yn defnyddio *Beibl y Storïwr Agor y Llyfr* a *Llawlyfr y Storïwr.* Yn *Beibl y Storïwr* ceir 90 o storïau, gan ddechrau yn Genesis a mynd drwy'r Beibl hyd at lyfr y Datguddiad. Mae'r Llawlyfr yn cynnwys popeth sydd ei angen ar storïwyr i greu gwasanaeth llawn. Mae croeso a chyflwyniad yn arwain at y stori fydd yn cael ei darllen, ac yna ceir munud dawel i fyfyrio a rhyfeddu, cyn cloi drwy offrymu gweddi.

Mae Agor y Llyfr yn ymwneud ag adrodd hanesion y Beibl, nid pregethu neu efengylu. Golyga hyn y gall plant o bob ffydd a'r rhai sydd heb ffydd wylio a rhyngweithio â'r straeon yn eu ffordd eu hunain. Rhoddwyd llawer iawn sylw a gofal i'r agwedd hon er mwyn sicrhau bod y straeon a sgriptiau'r gwasanaethau'n dderbyniol ac yn hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf posibl. Mae'r sgript hefyd yn caniatáu i blant o bob ffydd a'r rhai sydd heb ffydd benderfynu a hoffent ymuno â'r weddi ai peidio.





### Beth sydd rhaid i mi ei wneud i ddod yn storïwr?

- Mynd i'n gwefan i gael mwy o wybodaeth.
- Archebu lle a mynychu sesiwn hyfforddi Agor y Llyfr.
- Cael eich recriwtio'n ddiogel gan eich eglwys neu sefydliad.
- Mynd at ysgol a gweld ydyn nhw'n hapus i chi ymweld â nhw.

Wrth sefydlu tîm neu ymuno â thîm, mae aelodau llawn yn derbyn eu copi eu hunain o *Beibl y Storïwr* a'r *Llawlyfr*, ac yn cael mynediad i ardal aelodau Agor y Llyfr ar y wefan, sy'n llawn adnoddau defnyddiol.

Meddai un pennaeth ysgol: 'Mae Agor y Llyfr yn gyfle i'n plant gael dealltwriaeth ddyfnach o storïau allweddol y Beibl. Mae'r gwasanaethau'n helpu i ddatblygu ysbrydolrwydd a moesoldeb ein plant fel rhan o'n cwricwlwm.'

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.biblesociety.org.uk/getinvolved/open-the-book

*Aled Davies*

# Croeso’r Eglwysi yn y Sioe

A hithau’n nesáu at ganol mis Gorffennaf, a’r ysgolion yn paratoi i gau am yr haf, bydd ardal Llanelwedd unwaith eto yn paratoi i groesawu 50,000 o ymwelwyr yn ddyddiol dros gyfnod o 4 diwrnod rhwng y 24ain a’r 27ain o’r mis yma ar gyfer y Sioe Fawr flynyddol. Dyma ddathliad o fyd a bywyd amaethyddol Cymru, lle bydd ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd yn dangos eu cynnyrch, ynghanol cystadlu brwd a llawer o ddigwyddiadau ac adloniant amrywiol, o geffylau’n perfformio i awyrennau yn hedfan drosodd gyda’u campau. Mae’n faes sylweddol, gyda dros 700 o stondinau, yn arddangos a gwerthu pob math o gynnyrch.

Ynghanol hyn i gyd, mae’r eglwysi yn ceisio bod yno i gyfarfod a gwasanaethu pwy bynnag sydd am droi i mewn atom. Yn ôl yr arfer bydd stondin Cytûn yn agored rhwng 8.00 y bore a 6.00 y nos bob dydd, gyda phaned, teisen gri a sgwrs ar gael unrhyw bryd. Cynhelir cyfarfod gweddi bob bore am 8.00, oedfa am 11.00 a gwasanaeth byr eto am 5.00. O fewn y babell ceir ardal gweithgaredd plant, a diolch am waith tîm gweithwyr plant Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu sy’n trefnu hyn ar ein cyfer. Diolch hefyd i Undeb y Mamau am ofalu ar ôl y baned yn y babell. Yn ôl eu harfer bydd y Cyngor Ysgolion Sul yno gyda dewis eang o adnoddau yn Gymraeg a Saesneg, ac yn hapus i drafod agweddau o weinidogaeth a chenhadaeth yr eglwys. Bydd tîm gweddi ar gael yno hefyd trwy gydol yr wythnos, a chornel weddi bwrpasol ar y stondin. Elfen bwysig arall yw presenoldeb Tir Dewi yn y babell, yr elusen Gristnogol sy’n cefnogi lles a budd ffermwyr Cymru.

Mae’r gweithgaredd ffurfiol yn cychwyn ar y nos Sul cynt, gyda gwasanaeth am 6.00 yn eglwys y plwyf, a’r oedfa honno yng ngofal Llywydd y sioe a’i gaplan, sydd eleni o sir Forgannwg. Yna fe fydd cannoedd fel arfer yn heidio gyda’r nos i’r Sied Ddefaid ar gyfer Moliant y Maes blynyddol, lle ceir cymanfa ganu ddwyieithog.

Agwedd bwysig arall o’n gwaith ar y maes yw’r gwasanaeth caplaniaeth. Bydd tîm o gaplaniaid ar wasanaeth 24 awr, gyda nifer yn crwydro’r maes yn sgwrsio a chynorthwyo, lle bynnag mae’r angen. Diolch am waith y caplaniaid hyn, ac os oes yna rywrai o ddarllenwyr *Cenn@d* mewn ffordd i ystyried bod yn gaplaniaid yn y dyfodol, buasem yn falch o glywed gennych. Mae hyfforddiant llawn ar gael, ac mae gwirioneddol angen mwy o gaplaniaid sy’n siarad Cymraeg arnom.

Felly os byddwch yn mynd i gyfeiriad y Sioe, cofiwch alw mewn i’n gweld –mae’r stondin ar res ‘D’, heb fod yn bell o stondin y Cyngor Llyfrau. Mae croeso cynnes yno i bawb.

*Aled Davies*




## Heriau blwyddyn yr amaethwr

Wel, dyma ni, blwyddyn arall wedi mynd heibio a ninnau ar drothwy Sioe Frenhinol arall, lle bydd amaethwyr o bob rhan o Gymru yn dod at ei gilydd i fwynhau rhoi’r byd yn ei le a bod yng nghanol y cynnyrch gore sydd gan gefn gwlad i’w gynnig!

Rwyf wedi bod yn ffermio bellach ers dros bedwar deg o flynyddoedd ac yn yr amser hwnnw wedi profi llawer iawn o newid a heriau yn y diwydiant. Mae rhai pethau o fewn fy ngallu i newid a phethau eraill na allaf eu newid - fel yr un peth sydd yn allweddol bwysig i ffarmwr sef y tywydd!

Roedd sychdwr y llynedd yn enghraifft dda o hynny. Roedd gwres llethol yr haf a’r diffyg glaw yn golygu i ni orfod bwydo’r gwartheg gyda phorthiant oedd i fod i’w bwydo dros fisoedd y gaeaf! Er ein bod wedi gallu delio gyda’r sefyllfa yna drwy brynu porthiant i fewn i’r anifeiliaid, mae’n dangos yn yr oes sydd ohoni bod newid hinsawdd yn her fawr i amaethu ar hyn o bryd. Wrth imi ysgrifennu hwn, mae’r newyddion yn dangos gwres, sychdwr a thanau dros Ewrop, a llifogydd yn rhannau eraill o’r byd, ac mae’r byd amaeth yn cael ei gyfri’n rhan o’r broblem gan rai gwyddonwyr.

Fferm laeth sydd gen i adre ac mae’n ofynnol i ni bellach gofnodi ein cerddediad carbon, cadw record o’r lefelau nitrogen sydd yn cael ei ddefnyddio ar y tir, gofalu bod yr anifeiliaid yn cael eu porthi ar borfa neu gynnyrch naturiol o’r ffarm sydd ddim yn cael ei brynu i mewn. Yn sicr, mae’r amgylchedd a newid hinsawdd wedi dod yn fwy amlwg dros y blynyddoedd dwytha.

Mi rydym hefyd ar y fferm newydd ddod allan o gyfnod clo oherwydd TB ar y gwartheg am 8 mis gyda gwaharddiad ar brynu a gwerthu anifeiliaid. Mae’n siŵr gen i ei bod yn dibynnu ar bersonoliaeth y ffermwr sut mae’n delio gyda’r sefyllfa yma, ond mae’n anodd hyd yn oed i’r rhai cryfa eu meddwl orfod difa gwartheg maent wedi eu magu a gofalu amdanynt ers yn lloeau bach!

Mae iechyd meddwl a chryfder meddwl yn cael lle mewn amaethu heddiw gyda nifer o elusennau ac ymgyrchoedd yn cynnig help fel y DPJ, Tir Dewi a Nerth Dy Ben, sy’n cynnig cymorth a chlust i wrando ar y sawl sydd mewn trafferth. Mae’n beth da bod y rhain ar gael a’n bod yn cael ein hannog i fod yn agored gyda’n meddyliau a’n teimladau.

Pymtheg mlynedd yn ôl mi ges i sicrwydd yn fy ffydd Gristnogol ac ers hynny rwyf yn pwyso ac yn derbyn cryfder o’r berthynas sydd gennyf gyda Duw. Mae’n deimlad braf bod allan ar y buarth neu yn y caeau ym mhob tywydd, ac er gwaetha’r heriau mae’r gwaith yn eu taflu tuag ataf, gallaf ymddiried yn Nuw a bod ei bresenoldeb Ef i’w weld ac i’w deimlo ym mhob man.

*Huw Lloyd Evans*

**A hithau yn wythnos y Sioe Fawr yn Llanelwedd lle mae’r gymuned amaethyddol a’i chyfeillion yn dod at ei gilydd am wythnos o gystadlu a chymdeithasu, fe roddir y pwyntiau gweddi isod er mwyn i ninnau hefyd allu gweddïo dros y gymuned amaethyddol a rhoi diolch amdani. Beth am ddefnyddio’r pwyntiau i ysgogi gweddi bersonol neu gyhoeddus yr wythnos hon:**

**Diolch i gychwyn - bod Sioe i’w chynnal a stoc a chynnyrch i’w harddangos oherwydd daioni Duw tuag atom.**

**Diolch am y gymdeithas a geir yno.**

**Diolch am bob rhannu a dysgu ac anogaeth i bobl ifanc.**

**Diolch am y rhai sy’n gweithio i sicrhau bod bwyd i’w osod ar ein byrddau.**

**Gofyn ar i’r rhai sy’n gweithio ym myd amaeth heb fawr o gwmni gael cymdeithas a chlust i wrando.**

**Gofyn am nerth i’r rhai sydd wedi blino a diffygio.**

**Gofynnwn ar i bobl ifanc gael eu cadw yn ddiogel yno yr haf hwn.**

**Dros y rhai sydd wedi eu heffeithio’n feddyliol gan unigrwydd y blynyddoedd diwethaf hyn.**

**Dros bob gofid mawr a bach sydd ar feddwl amaethwyr y dyddiau hyn.**

**Dros ddyfodol cefn gwlad Cymru a gwytnwch y cymunedau hynny y mae amaethwyr yn rhan ohonyn nhw.**

**Dros bob ymdrech i werthfawrogi a diogelu daear da Duw.**

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 33 Gwneud hwyl, cadw addewid, sicrhau cyfamod

### Darllen : Genesis 21:8–21

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 143)

Rwyf am gychwyn heddiw gyda gair o eglurhad. Byddwch yn sylwi nawr fy mod am geisio gwneud darnau hwy dros yr wythnosau nesaf. Wedi sgwrsio gyda'r golygyddion, yr ydym angen dod â'r gyfres yma i ben cyn diwedd Awst, ac felly mi wnaf gyfyngu fy hun i esboniad syml â'r testun ac ambell bwynt sydd angen ei gymhwyso yn fwy na'i gilydd.

Bellach mae Isaac yn dair blwydd oed, ac Ismael yn 16eg. Fel y nodais yr wythnos ddiwethaf, mae gwawd Ismael o'i hanner brawd yn tynnu allan ystyr arall i enw Isaac – y tro hwn, gwneud hwyl yn hytrach na chwerthin. I bob golwg, mae ymateb Sarah yn ddealladwy ar sawl lefel, ac mae amryw o esbonwyr yn priodoli ystyr broffwydol i'w geiriau, ystyr oedd y tu hwnt i'w deall ei hunan. Wrth ddarllen am yr elyniaeth sydd rhwng y cnawd a'r ysbryd, rhwng plant Duw a phlant y byd, rhwng y rhai sy'n ymddiried yn y gyfraith a'r rhai sy'n adnabod gras, mae Paul yn defnyddio'r hanes hwn. Yn Galatiaid 4:21–31 mae'n cyfeirio at yr hanes fel alegori (4:24), gan bwysleisio: 'fel yr oedd plentyn y cnawd gynt yn erlid plentyn yr Ysbryd, felly y mae yn awr hefyd. Ond beth y mae'r Ysgrythur yn ei ddweud? "Gyrr allan y gaethferch a'i mab, oherwydd ni chaiff mab y gaethferch fyth gydetifeddu â mab y wraig rydd." Gan hynny, gyfeillion, nid plant i'r gaethferch ydym ni, ond plant i'r wraig rydd.' (Galatiaid 4:29-31)

Diddorol nad yw enw Ismael yn cael ei ddefnyddio yn yr adnodau hyn, gyda chyfeiriad yn unig at 'fab y gaethferch', ond mae'r sefyllfa yn ofid i Abraham gan ei fod yn ystyried Ismael fel mab (adnod 11). Ond, yng nghanol y tensiwn, mae Duw ei hun yn siarad, gan sicrhau Abraham y byddai'n gwarchod Ismael, yn diogelu ei linach, gan ddangos y byddai'n dod yn genedl arwyddocaol, er mai o Isaac y byddai llinach yr addewid yn cael ei sicrhau. Wedi sicrhau bwyd a diod iddynt, mae Hagar ac Ismael yn cychwyn i gyfeiriad yr Aifft, taith ddiddiolch drwy'r anialwch. Yr hyn oedd yn angenrheidiol oedd dod o hyd i ffynnon, ond fe glywn fod y dŵr yn y gostrel wedi pallu, a Hagar yn llusgo ei mab i gysgod. Gellir cyfieithu adnod 16 fel gweddi: 'Paid â gadael imi weld y bachgen yn marw', ond beth bynnag yw'r union ystyr, yr ydym yn gwybod yn dda am union ofid Hagar fel mam. Yr oedd yr angel wedi ymddangos iddi o'r blaen ym mhennod 16:7, a thebyg ei bod hi'n cofio hyn. A fyddai Duw yn ymyrryd yr eildro? Sylwch yn adnod 17 ar y ffordd y mae Duw yn ymateb, 'Clywodd Duw lais y plentyn … y mae Duw wedi clywed llais y plentyn'. Mae hyn yn arwyddocaol gan mai ystyr enw Ismael yw 'y Duw sy'n clywed'. Er bod Duw yn cyfarwyddo Abraham i anfon Hagar ac Ismael i ffwrdd, nid ydynt 'i ffwrdd' o'i ofal a'i ddarpariaeth: 'Yna agorodd Duw ei llygaid, a gwelodd bydew dŵr; ... Bu Duw gyda'r plentyn, a thyfodd' (adnodau 19, 20). Fel yn yr addewid yma, ac yn wir yn yr hanesyn nesaf, yr ydym yn cael ein hatgoffa o'r cychwyn fod perthynas Duw â'i bobl yn un arbennig, ond nid yw hynny mewn unrhyw ffordd yn negyddu'r gwirionedd fod pob creadur, pawb, y cyfiawn a'r anghyfiawn, yn byw ar drugaredd a daioni yr Arglwydd.

Yn adnodau 22–31 yr ydym yn cael ein hatgoffa o'r hyn ddigwyddodd ym mhennod 20, ac yn cael cip hefyd ar y tensiynau yr oedd Abraham yn gorfod eu hwynebu o fyw mewn ardal lle'r oedd cystadleuaeth am ddŵr. Wedi dweud hyn, hyd yn oed mewn anawsterau, ein cysur yw fod 'Duw gyda ni' ym mhopeth. Er bod hyn yn dod o enau Abimelech, mae'n atgof da i Abraham, yn golygu ei fod yn medru bod yn hael yn y sefyllfa. Mae'n amlwg fod Abraham wedi gorfod cyfeirio eisoes at y ffaith fod pobl Abimelech yn dwyn y dŵr o'r ffynnon yr oedd wedi ei chloddio (adnod 25), ond, yr oedd Abraham wedi adnabod elfen o drugaredd o law Abimelech, ac fel ymwelydd â'r wlad, mae'r cais am gytundeb yn un y mae'n bodloni ymateb yn gadarnhaol iddo. Er bod ein cyfieithiad yn cyfeirio at gais i Abraham fod yn 'deyrngar', tebyg mai ystyr orau'r gair yw 'caredigrwydd', neu gariad ffyddlon. Dyma'r gair ddefnyddir i gyfeirio at gariad Duw at y rhai sy'n ei garu yn Exodus 20:6, 'dangos trugaredd'.

Wrth i Abraham ymrwymo i'r caredigrwydd hwn, mae'n rhoi rhodd pellach o wartheg a defaid, a saith oen hesbin, ac o'u derbyn, mae Abimelech yn cydnabod mai Abraham gloddiodd y pydew. Yn wir, mae enw'r pydew, Beerseba, yn golygu 'ffynnon llw' neu 'ffynnon saith'. Yn dilyn, mae Abraham yn plannu coeden, ac yn gwneud hynny er mwyn diogelu atgof parhaus o'r caredigrwydd a'r cytundeb, ac yn yr enw mae'n ei roi i'r Arglwydd yma, 'y Duw tragwyddol', cawn synnwyr clir ei fod yn bwriadu bod yno am dymor gweddol, a natur barhaol y 'Duw sydd gyda ni'.

1. Sut mae ymateb yn briodol i'r rhai sy'n gwneud hwyl ar eich pen, neu'n gwneud hwyl ar yr hyn a gredwn fel Cristnogion?
2. Mae llawer o rieni wedi gorfod wynebu'r gofid o beidio gweld eu plant yn dod at Dduw, yn dilyn Iesu. Beth mae'r adnodau hyn yn ein dysgu am Dduw fel un sy'n gofalu, hyd yn oed pan nad oes ffydd bersonol?
3. Mae Abimelech yn atgoffa Abraham o'r hyn yr oedd ef, fel rhywun oedd yn addoli eilunod, wedi ei weld oedd yn wir am Dduw Abraham. Pa enghreifftiau sydd gennych o'ch ffydd yn cael ei chydnabod gan bobl y tu allan i'r eglwys?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 23 Gorffennaf am 7.30yh**
**Uchafbwyntiau 2**
Bydd Nia Roberts yn rhannu gwledd o ganu mawl a straeon ysbrydoledig wrth i ni fwynhau rhagor o uchafbwyntiau'r gyfres. Ymhlith y cyfranwyr mae'r cerddor Meurig Thomas, y cyfansoddwr Brian Hughes, a ffoaduriaid o Wcráin. A chawn berfformiad arbennig gan Lili Mohammad a Nansi Rhys.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 23 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
**Emynau ein prifeirdd: rhaglen 1**
R. Alun Evans yn bwrw golwg ar emynau gan rai o'n prifeirdd

**Sul, 23 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Eileen Davies, archddiacon Aberteifi

# GOHEBIAETH

## Hyfforddiant Diwinyddol Heddiw

Yn hanesyddol, mae dilynwyr y ffydd Gristnogol wedi arddel safbwyntiau diwinyddol efengylaidd uniongred neu safbwyntiau rhyddfrydig sy'n credu bod y Beibl yn agored i ddehongliadau.

Ar wefan Cymrugyfan, mae yn diffinio'i hun fel:

'Cydweithrediad rhwng eglwysi a sefydliadau efengylaidd er mwyn plannu a chryfhau eglwysi ar draws Cymru.

'Mae Cymru yn profi argyfwng presenoldeb yn yr eglwys. Ar hyn o bryd mae llawer o drefi a channoedd o bentrefi heb yr un eglwys efengylaidd. Yn ogystal mae yna lawer o bobl a chymunedau Cymraeg eu hiaith heb fynediad i'r eglwys nac i neges Iesu Grist yn eu hiaith eu hiaith eu hunain.

'Mae Cymrugyfan yn gweithio i weld eglwysi'n cael eu sefydlu, yn arbennig lle nad oes eglwysi efengylaidd yn bodoli, a lle mae angen i eglwysi gael eu hatgyfnerthu yn eu heffeithlonrwydd.

Gwneir hyn yn bennaf drwy hyfforddi a mentora grŵp o arweinwyr arloesol drwy brosiect Derwen.'

Un o gredóau Cymrugyfan yw: 'Y bydd yr Arglwydd Iesu yn dychwelyd yn ei berson, i farnu pawb a gweithredu condemniad cyfiawn Duw ar y rhai dydd heb edifarhau gan dderbyn y rhai a brynwyd i ogoniant tragwyddol.

Partneriaeth newydd yw Rhwydwaith Daniel Rowland rhwng Ysgol Ddiwinyddiaeth Union a rhai sy'n rhannu'r Efengyl yn y Gymraeg neu mewn cyd-destunau dwyieithog yng Nghymru. Amcan y rhwydwaith yw darparu hyfforddiant diwinyddol cyfrwng Cymraeg gan feithrin mwy o gydweithrediad cenhadol a phlannu eglwysi yng Nghymru.

Wrth bori yng ngwefan yr Union School of Theology sylwaf fod y sefydliad hyfforddi efengylaidd hwn wedi ei wreiddio yn America ac yn gweithredu ar draws y byd. Ni lwyddais i gael hyd i fersiwn Cymraeg un o gredoau'r Union School of Theology, 'that the Lord Jesus Christ will return in power and glory. That there is to be a resurrection and final judgment of all people issuing in eternal blessedness for believers and eternal punishment for the wicked.'

Ers cau Coleg Diwinyddol y Presbyteriaid yn Aberystwyth chwarter canrif yn ôl, mae ymddangos bod addysg ddiwinyddol yr enwad wedi bod yn ddiffocws a braidd yn annelwig. Bu darpariaeth ar y cyd rhwng yr enwadau yma yn y gogledd dan arweiniad y Parchedig Athro Elwyn Richards a'r diweddar Barchedig Athro Euros Jones.

A oes rhywun yn gwybod beth yw strwythur hyfforddi gweinidogion presennol pob enwad unigol yma yng Nghymru? Neu a yw adain efengylaidd Rhwydwaith Daniel Rowland yr Union School of Theology wedi canfod gwagle, ac yn gweld cyfle i gamu i mewn?

*Eifion Wynne, Rhuthun*


**CYFLE CYFFROUS I WEINIODOGAETHU I BLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD**

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun EFE,
(3 diwrnod yr wythnos)

Ydych chi'n angerddol dros rannu gobaith Iesu Grist ag eraill?
Ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd?
Mae Cynllun EFE yn chwilio am berson brwdfrydig i arwain a datblygu'r gwaith o gyflwyno'r Efengyl trwy gydweithio â chapeli, eglwysi ac ysgolion yn y pentrefi rhwng Y Wyddfa a Chaernarfon.
Am fanylion llawnach am y swydd a ffurflen gais, cysylltwch â John Roberts ar johntyhen@aol.com - neu ffoniwch (01286) 650450
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Gorffennaf 2023


# AWN I FETHLEM BAWB DAN GANU – PARHAD

Rowlands (2000–06); Robert Alun Evans (2008–16).

A bellach ers ymddeoliad R Alun, Delwyn Siôn, yr 'Un Seren', sydd wedi bod wrth y llyw fel arweinydd penigamp ar y capel.

### Dathlu a diolch

Wrth i'n mis Mehefin o ddathlu ym Methlehem ddod i ben, mynegwn ein diolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o hynny – trwy fynychu'r oedfaon, yn aelodau, cyfeillion ac ymwelwyr – trwy gymeryd rhan trwy lais, llun a gweithred – trwy ddewis a chanu hoff emynau, tan arweiniad crefftus Eilir Owen Griffiths, a chyfeiliant swynol Delyth Evans – trwy asbri heintus cyflwyniadau plant yr ysgol Sul a'u rhieni – trwy bytiau amserol a phwrpasol Delwyn Siôn trwy gydol y mis – a'r cyfan yn cael ei gloi yn gelfydd gyda her a chyfeiriad i Fethlehem wrth gamu i'r ganrif a hanner nesaf, a hynny yn raslon a diymffrost gan ein cyn-weinidog, y Parchedig R. Alun Evans.

Cynhyrchwyd logo arbennig ar gyfer y dathlu gan y pensaer Alwyn Harding Jones. A bu'r artist Anthony Evans yn brysur yn ei stiwdio yn creu portread cyfoes o'r capel ac fe ymgorfforwyd englyn o waith Rhys Powys yn gelfydd arno –mae'r cyfuniad yn cyfleu yn berffaith yr hyn sy'n gwneud Bethlehem, Gwaelod-y-garth, mor arbennig i'n heddiw a'n hyfory.

Yn y Gwaelod, gyda'n gilydd – y down
i Dŷ llawn llawenydd;
Hafan ddiffwdan ein ffydd,
Manna yng nghysgod Mynydd.

[Mae nifer gyfyngedig o brintiadau o'r llun [maint 24" x 16"] ar werth am £35, gyda chyfran o'r gost yn mynd i gronfa ein helusen leol, Cymdeithas Alzheimer Cymru. Gellir cysylltu â'r Ysgrifennydd rhodrigj@btinternet.com_ am fwy o wybodaeth.]

**Rhodri-Gwynn Jones**
**Ysgrifennydd**

# Barn Annibynnol

## Pwy sydd am astudio Llyfr Datguddiad?

Gall llyfr olaf y Beibl beri braw a dychryn i lawer. I rai mae ynddo wybodaeth sy'n darogan diwedd y byd. Yn wir, mae rhai wedi ceisio gosod dyddiad manwl ar gyfer diwedd y byd drwy ddadansoddi mathemateg rhai adrannau o'r llyfr. I eraill, y mae'n llawn cysur am Dduw'n 'sychu ymaith pob deigryn' ac yn cynnig i ni weledigaeth fendigedig o 'nef newydd a daear newydd'. Byddai'n well gan eraill anwybyddu'r llyfr yn llwyr ac anghofio ei fod yn y Beibl! Sut ydych chi'n ymateb i'r llyfr hwn?

### Braw

Pan ddeallodd rhai yn yr Eglwys Fethodistaidd mai Llyfr Datguddiad fyddai'n cael sylw yn ystod Mis y Beibl yn 2023, cawsant hwythau fraw: 'Rwy i ddim am gael dim i wneud â hyn!' Y disgwyl yw bod eglwysi'n canolbwyntio ar y llyfr a ddewiswyd yn yr holl oedfaon yn ystod y mis ac, os yn bosibl, yn cynnal astudiaethau Beiblaidd hefyd. Dyna a ddigwyddodd yn ein cylchdaith ni yn Abertawe a Gŵyr: pob eglwys yn clywed pregethu o Lyfr Datguddiad a'n heglwys ni, o leiaf, yn cynnal pedwar sesiwn o astudiaethau Beiblaidd a minnau'n eu harwain! Doedd neb yn disgwyl ymlaen ond, yn y diwedd, roedd y mwyafrif yn cydnabod eu bod wedi mwynhau'r mis. Gwych! Ond rhywbeth symlach a llai heriol y flwyddyn nesaf, os gwelwch yn dda!

### Delweddau a gweledigaethau

Bydd llawer yn cofio mai ar ynys Patmos 'oherwydd tystiolaeth Iesu' yr ysgrifennodd Ioan ei lyfr a hynny at 'y saith eglwys yn Asia' (Dyma sialens i chi: Enwch y saith eglwys - heb edrych yn Llyfr Datguddiad, wrth gwrs!) Disgrifir yr eglwysi hyn yn y nodiadau a baratowyd fel 'Cristnogion ymroddedig ond blêr, blinedig, briwedig a dryslyd.'

Nid oes sicrwydd pwy oedd Ioan. Mae'n annhebygol mai Ioan yr Efengyl a'r tri llythyr yn y Testament Newydd ydoedd. Ond mae'n debygol fod yr awdur yn dod o'r un tras Cristnogol ond wedi ei drwytho mewn llenyddiaeth apocalyptaidd Iddewig y ganrif gyntaf. Delweddaeth wahanol iawn sydd yma na'r hyn a welir i'r un graddau yng ngweddill y Testament Newydd ac eithrio ambell bennod megis Marc 13. Defnyddio delweddau a gweledigaethau y mae'r llenyddiaeth hon er mwyn cyflwyno neges i Gristnogion nad yw'n ddealladwy o angenrheidrwydd i eraill. Bwriad y llenyddiaeth hon, yn ôl Catrin Haf Williams, yw 'tynnu'r llen yn ôl ar y gwirioneddau am Dduw a'r byd nefol, a gwneud yn weledig yr hyn sy'n anweledig i lygaid dynol.' Ond, yn y diwedd, llyfr bugeiliol ydyw sy'n ceisio, yng ngeiriau'r arweiniad a baratowyd gan yr Eglwys Fethodistaidd, cynnig cymorth i Gristnogion dan erledigaeth ar ddiwedd y ganrif gyntaf 'i fyw yn obeithiol, yn ffyddlon ac yn gariadus fel pobl Dduw'. Gall y llyfr, felly, gynnig arweiniad i ninnau hefyd ta waeth mor heriol yw'r adeg hon yn hanes Cristnogaeth yma yng Nghymru ac yn fyd-eang.

### Themâu'r llyfr

Awgrymwyd pedair thema ganolog i ni wrth astudio'r llyfr: Yr Eglwys, Ddoe a Heddiw; Concwest yr Oen; Tystio, Addoli a Disgwyl ac, yn olaf, Mynd am Adre. Cawn yn y themâu hyn negeseuon sy'n ein herio ac yn ein calonogi heddiw:

- Nid yw'r eglwys yn ddiymgeledd er mor heriol ein dyddiau. Fel yn y ganrif gyntaf, cerdda'r Crist Byw ymhlith yr eglwysi o hyd a bydd goleuni 'y Gair a ddaeth yn gnawd', y goleuni 'na ellir ei ddiffodd', yn dal i ddisgleirio yn ein plith yng Nghymru heddiw.

- Er gwaethaf pob grym dieflig a chreulon sydd ar waith yn ein byd, nid y grymoedd mawr fydd yn ennill y dydd, ond yr Oen a laddwyd, sy'n deilwng, heddiw fel erioed, i ddatgelu bwriad tragwyddol Duw, a thrwy ei waed i'n gwaredu ni o afael grymoedd satanaidd pechod a drygioni.
- Y sicrwydd hwn o bresenoldeb Crist a'i goncwest sy'n rhoi'r hyder i ni i ddal i dystio i'r newyddion da, er gwaethaf pob rhwystr, trwy eiriau a gweithredoedd, trwy gymeriad Cristnogol, a thrwy'n safiad dros y gwir, y cyfiawn a'r da. Ac yn hyn oll, gallwn ddisgwyl am i Ysbryd y Crist byw fod ar waith yn ein plith o hyd.
- A daw'r llyfr i ben yn orfoleddus gyda gweledigaeth o 'nef newydd a daear newydd' gyda Christ 'y dechrau a'r diwedd' yn ysbrydoli'n ffydd a'n gobaith wrth i ni 'fynd am adre'.

### Halelwia, Halelwia!

Dyma'r newyddion da o hyd. Daeth Mis y Beibl eleni i ben yn y gylchdaith hon gydag oedfa arbennig yng Nghapel y Nant, Clydach, lle mae Eglwys Wesle Clydach yn addoli a lle mae partneriaeth ecwmenaidd rhwng y ddwy eglwys. Roedd yn oedfa ddwyieithog gyda thalentau cerddorol sylweddol Capel y Nant yn chwarae rhan amlwg a lle cawsom gyfle i ganu emynau Cymraeg a Saesneg sy'n tarddu yn Llyfr Datguddiad a'i neges rymus i ni. Yn y diwedd, felly, ennyn mawl pobl Dduw y mae Datguddiad. Dyma pam y daeth yr oedfa a'r mis i ben i ni gyda chanu cyfieithiad gwych T. Gwyn Jones, 'Am rif y saint':

> Ti oedd eu craig, eu cyfnerth hwy a'u mur,
> Ti, Iôr, fu'n Llywydd yn eu cad a'u cur,
> Ti yn y ddunos oedd eu golau pur:
> Halelwia, Halelwia!
>
> Fendigaid gymun! Undeb dwyfol ddrud!
> Ni yn ein gwendid, hwythau'n wyn eu byd;
> Ac eto ynot Ti mae pawb ynghyd,
> Halelwia, Halelwia!

**Noel Davies**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# ARIAN Y RHYFEL CARTREF (1): BATHDY BRENHINOL ABERYSTWYTH

*Yn yr erthygl hon mewn cyfres i'r* Tyst *am hen ddarnau arian o'i eiddo, mae Alun Lenny yn sôn am arian o gyfnod y Rhyfel Cartref yn yr 17eg ganrif. Gwrthdaro crefyddol yn bennaf oedd Rhyfel y Tair Teyrnas (fel y'i gelwir bellach) ar dir Prydain ac Iwerddon. Darn arian a fathwyd yng Nghymru trwy orchymyn y brenin Charles I yw testun yr erthygl hon, a bydd sylw i arian o gyfnod Gwerinlywodraeth yr Annibynnwr Oliver Cromwell yn yr un nesaf.*

## Brenin 'trwy ras Duw'

Mae'r arysgrif ar y darnau arian newydd fydd yn raddol ddod i'n poced neu bwrs yn datgan bod Charles III yn frenin 'trwy ras Duw', datganiad sydd heb newid ers cyn cyfnod y brenin Charles I. Yr unig beth sydd *wedi* newid yw bod y mwyafrif o bobl yn hidio dim am hynny heddiw. Ond nid felly ydoedd hi bron i bedair canrif yn ôl, pan aeth y brenin Charles I i'r gad yn erbyn y garfan Biwritanaidd yn y wlad ac yn y senedd a oedd yn gwadu ei statws unigryw fel un a gafodd ei eneinio gan Dduw. Ysgogwyd y brwydro, a barodd am ddegawd chwerw, gan ffactorau eraill hefyd. Nid oes gofod yma i fanylu am y rheini, ond fe ŵyr pawb mai'r canlyniad trychinebus i'r brenin Charles oedd cael ei ddienyddio.



## Arian Ceredigion



Darn grôt (sef 4 ceiniog) sydd gennyf i, ac mae'n amlwg iddo fod drwy'r felin. Fe'i prynais am £40 mewn ocsiwn am iddo gael ei fathu yng Nghymru – nid yn Llantrisant fel heddiw, ond yng nghastell Aberystwyth tua'r flwyddyn 1670! Bu mwynfeydd arian a phlwm gogledd Ceredigion yn gynhyrchiol dros ben am ganrifoedd lawer. Erbyn 1870, roedd 10,000 o fwynwyr yn gweithio yno. Dros ddwy ganrif cyn hynny, fe osodwyd mwynfeydd Cwmsymlog ar les gan y frenhiniaeth i Syr Hugh Myddelton a Thomas Bushell, ac yn 1637 fe roddodd y brenin Charles hawl i Bushell fathu arian yng nghastell Aberystwyth, yn hytrach na chludo'r bariau arian i Lundain ar gyfer bathu yno. Mae symbol y tair pluen o dan drwyn y brenin ac ar y cefn yn dynodi mai yn ein gwlad ni y bathwyd yr arian yma.



## Ystyr yr arysgrif yn llawn

Mae'r gair a'r llythrennau CAROLVS; D; G; M; BR; F; ET HI; REX. o gwmpas pen y brenin yn golygu: 'Charles, trwy ras Duw, Brenin Prydain Fawr, Ffrainc ac Iwerddon.' Ac o gwmpas yr arfwisg ar y cefn: CHRISTO. AVSPICE. REGNO, sef 'Teyrnasaf o dan nawdd Crist.' Bathwyd darnau dimau, ceiniog, tair ceiniog, hanner-grôt, grôt, chwe cheiniog, swllt a hanner coron yn y bathdy brenhinol yn neuadd y castell ar lannau Bae Ceredigion. Mae'r darnau'n denau iawn, gan mai'r broses am ganrifoedd oedd cynhyrchu arian trwy daro'r cylch metal plaen gyda 'bathyr' (*die*) i greu'r patrwm.

## Symud y bathdy

Yn 1642 fe symudwyd y bathdy o Aberystwyth i Rydychen ar frys wrth i'r brwydro ddechrau rhwng lluoedd y brenin a'r senedd. Roedd y rhan fwyaf o Gymru yn deyrngar i'r brenin. Un o'r eithriadau nodedig oedd y Piwritan Thomas Myddelton AS o Gastell y Waun, a gyfrannodd tuag at gyhoeddi'r Beibl Bach yn 1630. (Gwelais gopi o'r Beibl hwnnw yn llyfrgell y castell dro'n ôl.) Ymunodd miloedd â byddin Charles yn Wrecsam, ac fe gawsant eu lladd wrth y miloedd mewn brwydrau ym misoedd Hydref a Thachwedd 1642 – 1,000 ohonynt yn Edgehill, 1,500 yn Tewksbury a 2,000 yn Henffordd. Wn i ddim os oes ymadrodd Cymraeg am *cannon fodder* ond dyna oedd y Cymry hyn a aeth fel ŵyn i'r lladdfa. A beth fu tynged castell Aberystwyth? Roedd mewn cyflwr gwael iawn yn barod, ac yn dilyn gwarchae yn 1649 cafodd rhan helaeth o'r castell ei chwalu gan luoedd Cromwell.

## A'r twll yn y darn arian sydd gennyf?

Gall fod un o ddau reswm. Am ganrifoedd bu pobl sâl yn credu bod cyffyrddiad gan frenin neu frenhines yn medru gwella'u salwch. Yn dilyn y cyffyrddiad, tyfodd arferiad cyffredin iawn erbyn teyrnasiad Charles I o roi darn arian â thwll ynddo gyda rhuban i'r claf i'w wisgo fel amiwled am y gwddf i'w rwbio. Pan orseddwyd Charles II bu pandemig *scrofula* (math o TB yn y gwddf), a thybir bod y brenin wedi cyffwrdd a dros 100,000 o gleifion. Mae'r ail reswm yn llai rhamantus. Ar ôl i lywodraeth Oliver Cromwell ddod i rym trawyd twll mewn darnau arian Charles i ddynodi nad oeddent bellach yn ddilys fel arian cyfreithlon. Aed ati i fathu arian newydd oedd heb wyneb brenhinol nag arysgrif Lladin. Cewch weld un o'r darnau hynny yn yr erthygl nesaf.

**Alun Lenny**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*